Carcharorion a dyled

Mae llawer o bobl mewn dyled pan maen nhw'n mynd i'r carchar ac i'r mwyafrif mae eu dyledion yn gwaethygu tra eu bod yno. Gallai eich teulu hefyd fynd i ddyled oherwydd eich bod yn y carchar. Bydd y daflen ffeithiau hon yn eich helpu i ddelio â'ch dyledion a'ch helpu i reoli eich arian cymaint â phosibl.

Enghreifftiau o ddyledion
Hyd yn oed os nad oes gennych ddyledion pan ydych yn cyrraedd y carchar yn wreiddiol, gallwch fynd i ddyled os nad ydych yn delio â'ch arian yn gyflym. Dyma rhai enghreifftiau o'r dyledion sydd gennych o bosib:

- ôl-ddyledion rhent neu forgais
- y dreth gyngor
- biliau nwy a thrydan
- benthyciadau
- cardiau credyd neu gardiau siop
- dyledion catalog
- arian sy'n ddyledus i'r Asiantaeth Cynnal Plant
- ffioedd llys sy'n ddyledus gennych
- treth neu ddyledion yswiriant gwladol.

Cysylltwch â'r bobl y mae arnoch arian iddynt
Yn gyntaf, gwiriwch fod y swm o arian sy'n ddyledus yn gywir. Yna, ysgrifennwch at y bobl y mae arnoch arian iddynt (**eich credydwyr**) cyn gynted â phosibl. Esboniwch fod eich amgylchiadau wedi newid. Dywedwch pam nad ydych yn gallu ad-dalu'r arian a gofynnwch iddynt rewi'r llog. Gallwch hefyd ofyn iddynt ddileu'r ddyled yn gyfan gwbl. Hwn fyddai'r opsiwn orau os mai'r unig arian yr ydych yn ei dderbyn yw'r swm a gewch gan y carchar. Opsiynau eraill fyddai gofyn i'ch credydwyr eich caniatáu i dalu symiau llai o arian bob mis neu eich caniatáu i ailddechrau ad-dalu pan gewch eich rhyddhau.

Os oes gennych gardiau credyd neu gardiau siop, esboniwch nad ydych bellach yn gallu eu defnyddio. Torrwch y cardiau yn ddarnau a'u hanfon yn ôl ar y benthyciwr os yw hyn yn bosibl.

Ar waelod y daflen ffeithiau hon, rydyn ni wedi cynnwys manylion am sampl o lythyr y gallwch ei ysgrifennu at eich credydwyr. Sicrhewch eich bod yn cadw copïau o bob llythyr.

Os ydych yn oedi cyn cysylltu â'ch credydwyr, bydd eich dyled yn cynyddu oherwydd costau am dalu'n hwyr a llog. Hefyd, gallant eich cymryd i'r llys. Bydd hyn yn ei wneud yn anodd i chi gael credyd pan fyddwch yn gadael y carchar a gellwch golli eich cartref o ganlyniad i hyn.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os oes angen amser arnoch i gael manylion am eich dyledion, dylech ysgrifennu lythyr cryno at eich credydwyr i ddweud wrthynt eich bod yn y carchar. Gofynnwch iddynt rewi'r llog a'r costau am dalu'n hwyr tan eich bod yn cael cyngor ynglŷn â'r hyn i'w wneud nesaf.

Os yw asiantaeth cynghori fel CAB yn cynnal sesiynau yn eich carchar chi, gallwch ofyn iddynt ddelio â'r broblem ar eich rhan. Neu gallwch ysgrifennu at CAB i ofyn iddynt ddelio â'ch dyledion.

Ad-dalu eich dyledion

Os yw'r credydwr yn cytuno i chi ad-dalu swm bach, dechreuwch dalu cyn gynted â phosib. Sicrhewch nad ydych yn anghofio talu. Bydd credydwyr fel arfer yn cytuno ar swm bach am gyfnod byr yn unig, fel arfer tri neu chwe mis. Byddant yna yn cysylltu â chi eto i ddarganfod p'un ai bod eich amgylchiadau wedi newid ai peidio. Dylech ymateb i'r llythyron hyn bob amser. Gwiriwch y swm o arian y maen nhw'n ei ddweud sy'n ddyledus gennych ar unrhyw gyfriflenni neu lythyron a anfonir atoch er mwyn sicrhau nad oes llog wedi'i ychwanegu ato. Pan ydych yn ymateb, cofiwch ofyn iddynt barhau i rewi'r llog.

Pan ydych yn cyrraedd y carchar yn gyntaf, sicrhewch eich bod wedi hawlio'r holl fudd-daliadau sydd ar gael ar eich cyfer. Os ydych yn disgwyl taliadau wedi'u hôl-ddyddio, gellwch eu defnyddio i dalu eich dyledion. Mynnwch gyngor gan asiantaeth gynghori fel CAB ynglyn â pha fudd-daliadau y gellwch chi a'ch teulu eu cael pan ydych yn y carchar. Hefyd, dylech wirio eich treth - mae'n bosib y gallwch gael ad-daliad treth pan ydych yn mynd i'r carchar.

Pan ydych yn y carchar, caniateir i chi ddefnyddio eich arian preifat i ad-dalu unrhyw arian sy'n ddyledus i'ch credydwyr. Rydych hefyd yn gallu defnyddio'r arian a gewch o'r carchar i ad-dalu eich dyledion, hyd at swm penodol. Os mai'r arian a gewch o'r carchar yw eich unig enillion, mae'n rhaid i chi esbonio i'ch credydwyr faint yr ydych yn ei gael, faint o'r arian yr ydych yn gallu ei wario ac ar beth mae'n rhaid i chi ei wario. Bydd hyn yn dangos iddynt pam mai dim ond taliadau bychain iawn y gallwch eu gwneud neu pam nad ydych yn gallu talu o gwbl.

Pan ydych yn y carchar, mae gennych yr hawl i werthu eich eiddo personol. Gallwch ddefnyddio'r arian i ad-dalu eich dyledion. Mynnwch gyngor gan asiantaeth gynghori fel CAB cyn i chi werthu eich eiddo. Mae'n hynod o bwysig i chi gael cyngor cyn i chi werthu eich cartref. Hefyd os ydych yn garcharor na ddyfarnwyd yn euog, bydd yn rhaid i chi gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Heddlu os ydych yn dymuno gwerthu eich cartref.

Os oes gennych gyfrif banc, bydd angen caniatâd y carchar arnoch i anfon sieciau er mwyn ad-dalu eich dyledion. Os oes gennych gyfrif banc dros y ffôn neu gyfrif ar-lein, cysylltwch â'ch banc er mwyn cael cyfrif papur oherwydd nid ydych yn gallu defnyddio'r mathau hyn o gyfrifon pan ydych yn y carchar.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Benthyciadau pellach
Ni allwch gael rhagor o fenthyciadau pan ydych yn y carchar. Er enghraifft, ni allwch gael ail forgais ar eich cartref er mwyn rhyddhau arian i ad-dalu eich dyledion. Fodd bynnag, os oes gennych forgais ar y cyd, mae'n bosib y bydd eich partner yn gallu cael ail forgais ar yr eiddo os nad yw'n gallu fforddio'r taliadau ychwanegol. Dylai eich partner gael cyngor ariannol cyn penderfynu gwneud hyn.

Dyledion ar y cyd
Mae'n bosib bod rhywun arall yn gyfrifol am eich dyledion. Er enghraifft, os oes gennych fenthyciad ar y cyd, y person arall sy'n gyfrifol am y ddyled i gyd. Hefyd, os oeddech yn byw gyda rhywun a'ch bod wedi mynd i ddyled gyda'ch treth gyngor, y person arall sy'n gyfrifol am yr ôl-ddyledion i gyd. Fodd bynnag, os yw'r benthyciad yn eich enw chi, nid oes unrhyw un arall yn gyfrifol am eich dyled chi. Nid oes rhaid i'ch teulu ei thalu. Mae'n bosib eich bod yn teimlo bod eich credydwyr yn rhoi pwysau ar eich teulu i dalu eich dyled. Mae hyn yn erbyn y gyfraith. Mynnwch gyngor ar beth i'w wneud os yw hyn yn digwydd.

Ôl-ddyledion morgais neu rent
Mae'n bwysig iawn eich bod yn ymdrin â'ch ôl-ddyledion morgais a rhent oherwydd fel arall gallech golli eich cartref. Mae yna reolau ynglyn â chael budd-daliadau ar gyfer eich cartref os ydych yn y carchar. Mae'r rheolau hyn yn dibynnu ar ba mor hir yw eich dedfryd. Os oes gennych deulu yn byw yn eich cartref, sicrhewch eich bod yn cael cyngor gan asiantaeth gynghori fel CAB ynglyn â sut allan nhw gadw'r cartref. Os ydych yn colli eich cartref, cysylltwch â CAB am gyngor ar sut allai'r cyngor ailgartrefu eich teulu.

Beilïaid
Gallai eich credydwyr ddefnyddio beilïaid i gymryd eich eiddo i ffwrdd. Maen nhw'n gwerthu'r eiddo a defnyddio'r arian i dalu'r ddyled. Fel arfer caiff beilïaid eu defnyddio os nad ydych wedi talu ffioedd y llys, os oes gennych ôl-ddyledion y dreth gyngor neu os oes arnoch chi arian i'r Asiantaeth Cynnal Plant. Gall beilïaid fynd i'r carchar i gymryd eich eiddo os yw Rheolwr y Carchar yn eu caniatáu. Gallant gymryd eich arian preifat ond ni allant gymryd arian o'ch enillion. Os ydych yn cael llythyr o'r beilïaid sy'n dweud eu bod yn dod i gymryd eich eiddo, mynnwch gyngor gan asiantaeth gynghori fel CAB.

Methdaliad
Mewn rhai amgylchiadau, yr unig beth allwch ei wneud yw datgan eich hun yn fethdalwr os nad oes gobaith gennych i dalu eich dyledion a bod eich credydwyr yn gwrthod dileu'r ddyled neu dderbyn taliadau bychain. Gall methdaliad gymryd ymaith unrhyw bwysau o'ch credydwyr. Ar ddiwedd y methdaliad, gallwch ddechrau o'r newydd a chaiff eich dyled fel arfer ei dileu. Mewn llawer o achosion, gall hyn ddigwydd dim ond ar ôl un flwyddyn.

Fodd bynnag, mae yna anfanteision ynghlwm wrth fethdaliad. Er enghraifft, mae'n costio llawer o arian i ddatgan eich hun yn fethdalwr (£600, mwy os ydych yn defnyddio cyfreithiwr). Hefyd os ydych yn berchen ar eich cartref, fel arfer bydd yn rhaid i chi ei werthu. Mae'n rhaid i chi fynd i'r llys am orchymyn methdaliad ac mae'n rhaid i chi siarad â swyddog methdaliad dros y ffôn neu gyfarfod ag ef.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mewn rhai ardaloedd, gellir gwneud trefniadau arbennig i ganiatáu carcharorion i ddefnyddio cysylltiadau fideo er mwyn datgan ei hun yn fethdalwr - gwiriwch i weld os yw hyn yn gallu digwydd yn eich carchar chi.

Os ydych yn fethdalwr, mae'n ofynnol i'r carchar riportio unrhyw eiddo neu arian y maen nhw'n dal ar eich rhan.

Cyrsiau i'ch helpu i reoli eich arian
Mae'n bosib bod eich carchar yn cynnal sesiynau i'ch helpu i reoli eich arian. Gall y cyrsiau hyn eich helpu i fynd i'r' afael â'ch dyledion a'ch helpu i hawlio budd-daliadau, llunio cyllideb, rheoli cyfrif banc a deall mwy am gredyd.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Mae **Rheol Sefydlog y Carchar 4465** yn ymdrin â hawliau charcharorion a'u harian. Cewch gopi o'r rheoli hon yn llyfrgell y carchar.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Carcharorion - llythyron
- Methdaliad
- Carcharorion a budd-daliadau
- Gadael y carchar
- Sampl o lythyron dyled
- Carcharorion a thai

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 06 Ebrill 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr